OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 684 (Cy.92)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol)(Diwygio)(Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 128, 129, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

### Diwygio rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol

**2.** Diwygir Rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol (gwerth adbrynu taleb ar gyfer ailosod neu drwsio) fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£52.90" rhodder "£54.20"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£13.70" rhodder "£14.00".

### Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol

**3.**—(1) Diwygir Atodlenni 1 i 3 i'r Rheoliadau Optegol yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

---

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau a wynebwerthoedd talebau — cyflenwi ac ailosod), yng ngholofn (3) o'r tabl (wynebwerth taleb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

| *(1)* *Swm blaenorol* | *(2)* *Swm newydd* |
|---|---|
| £36.20 | £37.10 |
| £55.10 | £56.40 |
| £80.60 | £82.60 |
| £182.00 | £186.50 |
| £62.70 | £64.20 |
| £79.70 | £81.60 |
| £103.30 | £105.80 |
| £200.10 | £205.10 |
| £186.40 | £191.00 |
| £52.90 | £54.20 |

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bach a sbectolau arbennig a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£11.80" rhodder "£12.10;

(b) ym mharagraff (1)(1)(b), yn lle "£14.20" rhodder "£14.60 ";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£4.00" rhodder "£4.10 ";

(d) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.50" rhodder "£4.60 ";

(e) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£59.70", "£52.90" a "£28.60" rhodder "£61.20", "£54.20" a "£29.30" yn eu trefn;

(f) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£59.70" rhodder "£61.20 ";

(g) ym mharagraff 2(a), yn lle "£13.70" rhodder "£14.00 "; a

(h) ym mharagraff 2(b), yn lle "£34.60" rhodder "£35.50 ".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau — trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Darpariaeth Drosiannol**

**4.** Nid yw'r symiau newydd a amnewidir gan reoliadau 2 a 3 yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2012

# ATODLEN

Rheoliad 3(4)

## ATODLEN 3 I'R RHEOLIADAU OPTEGOL FEL Y'I HAMNEWIDIR GAN Y RHEOLIADAU HYN

## "SCHEDULE 3

Regulation 19(2) and (3)

## VOUCHER VALUES REPAIR

| *(1) Nature of Repair* | *(2) Letter of Codes — Values* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A £ | B £ | C £ | D £ | E £ | F £ | G £ | H £ | I £ |
| Repair or replacement of one lens | 11.55 | 21.20 | 34.30 | 86.25 | 25.10 | 33.80 | 45.90 | 95.55 | 88.50 |
| Repair or replacement of two lenses | 23.10 | 42.40 | 68.60 | 172.50 | 50.20 | 67.60 | 91.80 | 191.10 | 177.00 |
| Repair or replacement of: | | | | | | | | | |
| The front of a frame | 11.90 | 11.90 | 11.90 | 11.90 | 11.90 | 11.90 | 11.90 | 11.90 | 11.90 |
| A side of a frame | 7.05 | 7.05 | 7.05 | 7.05 | 7.05 | 7.05 | 7.05 | 7.05 | 7.05 |
| The whole frame | 14.00 | 14.00 | 14.00 | 14.00 | 14.00 | 14.00 | 14.00 | 14.00 | 14.00". |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol"), sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau a dynnwyd gan gategorïau penodol o bobl mewn cysylltiad â chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth adbrynu taleb a ddyroddir tuag at gost ailosod un lens gyffwrdd ac i gynyddu uchafswm y cyfraniad drwy daleb tuag at gost trwsio ffrâm.

Mae rheoliad 3 a'r Atodlen yn diwygio Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth talebau a ddyroddir tuag at gostau cyflenwi ac ailosod sbectolau a lensys cyffwrdd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau arbennig o declynnau ac i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o drwsio ac ailosod teclynnau optegol. Mae cyfradd y cynnydd yng ngwerth y talebau yn y Rheoliadau hyn oddeutu 2.5%.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a dderbyniwyd neu a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, barnwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.